Cyngor Sir CEREDIGION

CEREDIGION County Council

# Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022

# Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

# Crynodeb Annhechnegol

**Ebrill 2013**

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Ffôn 01545 570881 Facs: 01545 572117

Director of Environmental Services and Housing,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117

# Cynnwys


**1. Rhagymadrodd 1**

**2. Cynllun Datblygu Lleol 1**

**3. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol 1**

**4. Datblygu Fframwaith yr AG 3**

**5. Ymgynghori Blaenorol 3**

**6. Datblygu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 4**

**7. Asesu Cydweddoldeb Amcanion y CDLl a'r Amcanion Cynaliadwyedd 6**

**8. Asesu Polisïau'r CDLl 6**

**9. Asesu'r Safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLl 13**

**10. Lliniaru 14**

**11. Monitro Effeithiau'r Cynllun 14**

**12. Mabwysiadu'r Cynllun 15**

# 1. Rhagymadrodd

1.1 Y ddogfen hon yw'r Crynodeb Annhechnegol o Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAG) Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) (CDLl). Mae'n egluro sut mae'r arfarniad o gynaliadwyedd wedi dylanwadu ar y CDLl.

# 2. Cynllun Datblygu Lleol

2.1 Gwnaeth Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 newidiadau yn y system gynllunio bresennol a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal. Bydd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 yn llywio'r datblygu ar dir a'r defnydd ohono yn y Sir yn y 15 mlynedd nesaf. Fe'i mabwysiadwyd ar 25 Ebrill 20013 gan gymryd lle Cynllun Fframwaith Dyfed (addasiad 1991) a Fersiwn Newidiadau Arfaethedig Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Ceredigion (2006) fel y cynllun datblygu i'r Sir.

2.1.1 Mae'r CDLl wedi'i seilio ar y wybodaeth a gasglwyd ac ymateb y gymuned i 'Ddogfennau Cyn Adneuo'r a dogfennau Adneuo Cynllun Datblygu Lleol'. Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLl yn elfen allweddol yn nogfennau Cyn Adneuo'r CDLl. Aseswyd effeithiau'r Strategaeth a Ffefrir yn yr Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Mawrth 2009) ac aseswyd effeithiau'r adneuo yn yr Adroddiad Adneuo Gwerthuso Cynaliadwyedd.

2.1.2 Mae'r CDLl yn cynnwys:

- Trafodaeth am faterion strategol allweddol yng Ngheredigion;
- Gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Strategaeth;
- Polisïau strategol a pholisïau am Ddefnydd Tir Penodol a Rheoli Datblygu;
- Mapiau cynigion;
- Datganiadau Grwpiau Aneddiadau; a
- Rhestrau o Safleoedd sydd wedi eu neilltuo.

# 3. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol


3.1 Pwrpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy, drwy integreiddio ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd yn well yn y broses o baratoi a mabwysiadu cynlluniau datblygu. Dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol cael AG ar gyfer CDLlau yng Nghymru. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ailadroddus a gyflawnir wrth baratoi'r Cynllun, sy'n pennu'r graddau y bydd y Cynllun, o'i roi ar waith, yn cyflawni'r amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y gellir eu defnyddio i ddiffinio datblygu cynaliadwy.

3.2 Dylai proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd gynnwys proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol â gofynion Rheoliadau

Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Bydd yr AAS yn sicrhau bod y CDLl yn pennu ac yn rhagfynegi unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n codi o gynigion, gan gynnwys dewisiadau eraill, a'i fod yn cynnig mesurau i leihau unrhyw effeithiau anffafriol. Bydd angen monitro effeithiau arwyddocaol ar ôl gweithredu'r CDLl.

3.3 Rhaid i broses yr AAS asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun ar yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd yn unol â rheoliadau'r AAS: Aer, Bioamrywiaeth a Phlanhigion ac Anifeiliaid, Treftadaeth Ddiwylliannol, Iechyd Pobl, Tirwedd, Asedau Materol, Poblogaeth, Dŵr, Pridd, Hinsawdd a'r cydberthnasau rhyngddynt.

3.4 Bodlonir gofynion yr AG a'r AAS drwy un broses arfarnu, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyflawnir yr AG/AAS o'r CDLl drwy bum cam allweddol sydd wedi'u disgrifio yn Ffigur 1.




**Ffigur 1 Prif gamau proses yr AG/AAS gydag amseroedd dangosol ar gyfer cwblhau'r asesiad gan Gyngor Sir Ceredigion. Dangosir y cam cyfredol mewn llwyd.**

# 4. Datblygu Fframwaith yr AG

4.1 Rhwng Medi 2007 ac Ionawr 2008 paratodd yr Awdurdod Lleol Adroddiad Cwmpasu yr AG, gyda chymorth yr ymgynghorwyr C4S a'r Gweithgor Cynaliadwyedd. Cyflawnwyd y broses a'r tasgau canlynol wrth baratoi'r Adroddiad Cwmpasu.

**Enwi cynlluniau eraill, rhaglenni ac amcanion AG sy'n berthnasol**

4.2 Roedd y cam cyntaf yn cynnwys dadansoddi cynlluniau a rhaglenni perthnasol ar y lefel Ewropeaidd, Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol er mwyn pennu materion sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r CDLl (Adran 3 ac Atodiad 2 yr AAG Terfynol, 2013).

**Casglu Data Llinell Sylfaen**

4.3 Roedd y cam nesaf yn golygu casglu data llinell sylfaen er mwyn darparu cyd-destun a sylfaen dystiolaeth i bennu materion ac amcanion cynaliadwyedd ar gyfer Ceredigion. Cyflawnwyd hyn er mwyn cael cymorth i asesu effeithiau'r CDLl yn ddiweddarach (Adran 4 ac Atodiad 7 yr AAG Terfynol, (2013).

**Pennu Materion Cynaliadwyedd Allweddol**

4.4 Roedd y cam hwn yn golygu pennu materion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i Geredigion a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcanion cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Cyngor Sir. Mae disgrifiad o'r holl faterion yn Atodiad yr AAG Terfynol, (2013).

**Fframwaith Drafft yr AG**

4.5 Roedd y Fframwaith hwn yn cynnwys y wybodaeth llinell sylfaen allweddol a materion cynaliadwyedd mewn cyfres o amcanion a fyddai'n cynnig modd i ddadansoddi effeithiau polisïau a chynigion y CDLl ar gynaliadwyedd.

4.6 Fel rhan o broses gwmpasu gyfranogol, ac er mwyn cael cyngor a gwybodaeth wrth gynhyrchu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AG/AAS), sefydlwyd Gweithgor Cynaliadwyedd. Mae amcanion y Gweithgor wedi'u nodi yn Adran 1 yr AAG Terfynol, (2013).

4.7 Pennwyd aelodaeth y Gweithgor er mwyn cael cydbwysedd rhwng cyfraniadau sy'n adlewyrchu tair o'r pum egwyddor gyffredin ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y DU sef: "byw o fewn terfynau amgylcheddol," "sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyfiawn", a "gwireddu economi gynaliadwy". Mae rhestr o'r cyrff sy'n rhan o'r gweithgor yn Atodiad 10 yr AAG Terfynol, (2013).

# 5. Ymgynghori Blaenorol

5.1 Mae ymgynghori'n orfodol ar wahanol gamau ym mhroses yr AG/AAS. Dan Reoliadau'r AAS i Gymru, rhaid ymgynghori â'r tri chorff ymgynghori (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cadw) ynghylch cwmpas a lefel manylder y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr Adroddiad

Amgylcheddol (a elwir yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yma). Anfonwyd yr Adroddiad Cwmpasu i'r cyrff ymgynghori'n unol â'r gofynion ymgynghori ar gyfer y cam hwn yn yr AAS. Er mwyn gwneud y broses yn un mor gynhwysol ag sy'n bosibl, rhoddwyd cyfle hefyd i'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid cysylltiedig gynnig sylwadau am y ddogfen Gwmpasu.

5.2 Ym Mawrth 2009 ymgynghorwyd ar Ddogfennau Cyn Adneuo CDLl Ceredigion am gyfnod o 6 wythnos (yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru). Y dogfennau yr ymgynghorwyd arnynt oedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl, yr Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.3 Mae'r barnau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cychwynnol ar Gynaliadwyedd wedi'u hystyried yng nghamau nesaf proses yr AG/AAS. Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ynghyd ag esboniadau o'r modd y maent wedi'u hystyried yng nghamau dilynol yr AG/AAS yn Atodiad 8 i'r AAG (2010).

5.4 Ym mis Rhagfyr 2010 ymgynghorwyd ynglŷn â Dogfennau Adneuo CDLl Ceredigion am gyfnod o 6 wythnos. Y dogfennau yr ymgynghorwyd yn eu cylch oedd y Cynlun Datblygu Lleol Adneuol, Yr Adroddiad Gwerthusol Cynaliadwyedd Adneuo (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoli Cynefinoedd Adneuo.

5.5 Mae'r sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cynaliadwyedd Adneuo wedi cael eu bwydo ymlaen i gamau nesaf yr AG/AAS. Gallwch weld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd ag eglurhad o'r ffordd y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yng nghamau nesaf yr AG/AAS yn Atodiad 1 i'r Ychwanegiad i'r AAG (2010)

## 6. Datblygu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

6.1 Ar ôl ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu a'r ACAG, ystyriwyd y sylwadau a chychwynnodd yr Awdurdod Lleol ar y broses o adolygu'r holl waith ar yr AG/AAS a gyflawnwyd hyd hynny. Yn bennaf, adolygwyd cynlluniau a rhaglenni ychwanegol, ystyriwyd gwybodaeth llinell sylfaen newydd, diweddarwyd materion allweddol a diwygiwyd Fframwaith yr AG o Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd fel rhan o waith ar yr AAG Adneuo.

6.2 Mae Tabl 1 yn dangos y set derfynol o amcanion cynaliadwyedd a ddefnyddiwyd i asesu'r CDLl. Mae'r Amcanion Cynaliadwyedd wedi'u hategu gan gyfres o is-amcanion sydd yn Atodiad 1 i'r AAG Terfynol (2010).

**Tabl 1. Y prif Amcanion Cynaliadwyedd ar gyfer AG/AAS Ceredigion**

| Rhif yr Amcan | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| 1a | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygu sy'n bodoli a datblygu newydd. |
| 1b | Sicrhau bod mesurau digonol ar waith i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |
| 1c | Lleihau'r perygl o lifogydd. |
| 2a | Lleihau halogi a diogelu ansawdd a maint pridd. |
| 2b | Cynnal a gwella ansawdd aer ledled Ceredigion. |
| 2c | Lleihau effeithiau anffafriol defnyddio tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. |
| 3a | Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy. |
| 3b | Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. |
| 4a | Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth. |
| 5a | Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd Ceredigion, ei hamgylchedd hanesyddol, ei hamrywiaeth, a'i nodweddion unigryw lleol, a'i threftadaeth hanesyddol a diwylliannol. |
| 6a | Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol neilltuol a sicrhau bod anghenion oherwydd y newid mewn demograffeg wedi'u hadlewyrchu. |
| 6b | Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynus. |
| 7a | Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. |
| 8a | Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar o fewn Ceredigion. |
| 9 | Creu mwy o gyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. |
| 10 | Gwarchod cymunedau drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. |
| 11a | Lleihau'r angen am deithio/trafnidiaeth a hyrwyddo moddau trafnidiaeth cynaliadwy. |
| 11b | Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er mwyn yr economi. |
| 12 | Hybu economi fywiog ac amrywiol. |

6.3 Mae'r adolygiad llinell sylfaen llawn a'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd sydd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Amcanion Cynaliadwyedd a Fframwaith yr AG wedi'u trefnu mewn fframwaith seiliedig ar destunau sydd yn Atodiadau 1 a 7 i'r AAG terfynol (2013).

# 7. Asesu Cydweddoldeb Amcanion y CDLl a'r Amcanion Cynaliadwyedd

7.1 Roedd cam nesaf y broses yn golygu asesu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl yn erbyn Amcanion yr AG. Gwerthuswyd pob un o amcanion y CDLl o ran ei gydweddoldeb â phob un o'r 19 o Amcanion Cynaliadwyedd.

7.2 Mae'r CDLl Adneuo'n nodi 18 o Amcanion sy'n ymateb i faterion penodol y mae angen i'r CDLl ymdrin â nhw. Mae'r Amcanion hyn o gymorth wrth wireddu'r Weledigaeth ar gyfer y CDLl ac yn gymorth i ymateb i'r materion a'r tueddiadau a amlygwyd drwy'r Adroddiad Cwmpasu ac adolygiad cyffredinol o'r wybodaeth llinell sylfaen am yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas.

7.3 Mae Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl wedi'u nodi yn Adran 5 o'r AAG terfynol (2013).

7.4 Aseswyd yr Amcanion ar gyfer y CDLl o ran eu cydweddoldeb â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae Crynodeb o'r arfarniad yn Adran 5, ac mae arfarniad llawn yn Atodiad 4 i'r AAG terfynol (2013).

7.5 Yn gyffredinol, cafwyd bod Amcanion y CDLl yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Roedd yr ychydig eithriadau fel arfer yn adlewyrchu ansicrwydd ynghylch sut y gellid mynegi'r Amcan mewn amgylchiadau penodol. Byddai rhai amheuon ynghylch cydweddoldeb Amcanion yn gallu codi hefyd o'r ffaith y byddai dilyn un Amcan CDLl neu Amcan Cynaliadwyedd, heb ystyried y lleill, yn gallu arwain at lwyddiant mewn un ar draul y llall. Er enghraifft, byddai nodau ar gyfer cyflawni twf o ran tai neu'r economi yn y Sir yn gallu arwain at niwed i'r dirwedd a bioamrywiaeth os caniateir gormod o ddatblygu.

7.6 Yn ystod yr asesiad cafwyd bod angen diwygio geiriad rhai o Amcanion y CDLl a'r Amcanion Cynaliadwyedd, un ai i'w gwneud yn fwy cydweddol, neu i ddangos eu nodau'n gliriach. Mae mwy o fanylion yn Adran 5 o'r AAG terfynol (2013).

# 8. Asesu Polisïau'r CDLl

### Asesu Blaenorol

8.1 Wrth geisio datblygu strategaeth effeithiol a chydlynus ar gyfer y CDLl, ystyriwyd amryw o opsiynau strategol ar gyfer lefel a dosbarthiad gofodol y twf yn y dyfodol yn y cam Cyn Adneuo. Mae crynodeb o'r opsiynau hyn a'r asesiad yn Adran 6 o'r AAG (2009), ac mae arfarniadau llawn yn Atodiad 2 i'r un adroddiad. Nodwyd 25 o Bolisïau Strategol ar sail yr opsiynau polisi, ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Mae'r arfarniad llawn o'r rhain yn Atodiad 3 i'r AAG (2009).

8.2 Roedd y 25 o Bolisïau Strategol hyn yn sail i'r 58 o bolisïau a aeth ymlaen i fersiwn terfynol y CDLl. Mae cyfiawnhad byr dros gynnwys pob polisi yng Nghyfrol 1 y CDLl. Mae'r polisïau wedi'u trefnu'n grwpiau dan y tair thema benodol a ganlyn:

a. Y Strategaeth;
b. Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir; ac
c. Rheoli Datblygu.

8.3 Aseswyd polisïau'r CDLl gan ddefnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o Fframwaith yr AG a ddefnyddiwyd yn yr AAG, a ddatblygwyd yn wreiddiol yn ystod proses Cwmpasu'r AG. Mae crynodeb o bolisïau'r Cynllun Adneuo yn Nhabl 7.1 yr AAG terfynol (2013), ac mae'r polisïau llawn yn Atodiad 3 i'r un adroddiad. Cyflwynir arfarniad llawn o bob polisi yn Atodiad 4.

**Asesu'r Polisïau**

8.4 Aseswyd y polisïau ar gyfer y CDLl o ran eu heffeithiau tebygol mewn cysylltiad â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Gofynnwyd, felly, a yw'r camau y mae angen eu cymryd i ddilyn polisïau'r CDLl yn debygol o effeithio ar nodau'r Amcan Cynaliadwyedd. Ystyriwyd yr Arfarniad Cynaliadwyedd manwl ar gyfer yr elfennau ym mhob un o'r polisïau wrth wneud asesiad cyffredinol o Bolisïau'r CDLl mewn cysylltiad â phob un o'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae crynodeb o'r asesiad o bolisïau a'r argymhellion yn Nhabl 3. Mae tablau matrics yr arfarniad llawn, sy'n cynnwys manylion am yr effeithiau a ragfynegwyd o ganlyniad i'r polisïau, yn Atodiad 4 i'r AAG terfynol. Mae crynodeb o'r asesiad yn Nhabl 2.

**Tabl 2. Crynodeb o asesiad yr AG/AAS**

| Asesiad o Arwyddocâd | Disgrifiad |
|---|---|
| ++ | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith gadarnhaol fawr ar ei ffurf bresennol gan y byddai'n datrys mater sy'n bodoli neu'n amlhau cyfleoedd. ARWYDDOCAOL |
| + | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith gadarnhaol fach. |
| ? | Mae effaith yr Amcan/Opsiwn yn ansicr. |
| 0 | Ni fyddai'r Amcan/Opsiwn yn cael unrhyw effeithiau a ragfynegir. |
| - | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith anffafriol fach. |
| -- | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith anffafriol fawr gan y byddai'n dwysáu problemau sy'n bod eisoes yn sylweddol. Ystyriwch beidio â chynnwys yr opsiwn. ARWYDDOCAOL |

8.5 Yn gyffredinol, cafwyd bod yr effeithiau a ragfynegir o ganlyniad i weithredu Polisïau'r CDLl yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Rhagfynegwyd rhai effeithiau anffafriol, a'r rhain yn gysylltiedig â datblygiadau tai a chyflogaeth newydd a chymryd mwy o dir a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r datblygu newydd hwn. Nodwyd rhai elfennau ansicr mewn cysylltiad â natur yr effeithiau, yn enwedig y rheini ar y dirwedd a bioamrywiaeth, a fyddai'n codi o ganlyniad i gyflwyno datblygu newydd i gwrdd ag anghenion o ran tai a thwf economaidd. Dylid nodi mai ychydig iawn o effeithiau negyddol ar yr Amcanion Cynaliadwyedd a gafwyd yn yr

asesiadau. Y prif reswm am hyn yw bod effeithiau negyddol posibl y polisïau wedi cael sylw yng ngham Cyn Adneuo'r CDLl.

8.6 At ei gilydd, rhoddwyd sgôr uchel i'r polisïau yn yr arfarniad ac nid oedd unrhyw un o'r polisïau y credwyd y byddent yn cael effeithiau anffafriol arwyddocaol ar yr Amcanion Cynaliadwyedd. Er hynny, yn ystod yr arfarniad penderfynwyd newid geiriad rhai o'r polisïau, un ai i'w gwneud yn fwy cydweddol, neu i ddangos eu nodau'n gliriach. Mae manylion y newidiadau a wnaed yn y polisïau Adneuo yn Adran 6 o'r AAG terfynol (2013).

**Tabl 3. Arfarniad o'r Polisïau Adneuo**

| Amcan Cynaliadwyedd (Cryno) / Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau | 1a. Lleihau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid yn yr hinsawdd | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Ansawdd a maint pridd | 2b. Ansawdd Aer | 2c. Ansawdd a maint dŵr | 3a. Adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith | 4a. Bioamrywiaeth | 5a. Tirwedd a threftadaeth | 6a. Hunaniaeth ddiwylliannol | 6b. Cymunedau bywiog | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a hamdden | 9. Sylfaen addysg a sgiliau | 10. Dyfodol cynaliadwy | 11a. Moddau teithio cynaliadwy | 11b. Gwasanaethau hygyrch | 12. Economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + |
| Y Strategaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi S01: Strategaeth | - | + | + | - | - | - | + | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | - | + | + |
| Polisi S02: Canolfannau Gwasanaethu Trefol | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S03: Canolfannau Gwasanaethu Gwledig | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S04: Aneddiadau a lleoliadau heblaw Canolfannau Gwasanaethu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + |
| Polisi S05: Darparu cyfle ar gyfer twf economaidd | - | 0 | 0 | - | - | ? | - | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | - | + | ++ |
| Polisi S06: Darparu cyfle ar gyfer twf Tai | - | 0 | 0 | - | - | ? | - | + | ? | ? | ++ | ++ | + | 0 | 0 | + | - | + | + |
| Polisi S07: Targed ar gyfer cartrefi fforddiadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | ++ | + | 0 | 0 | + | + | + | + |
| Polisi S08: Safleoedd sydd wedi eu dyrannu | Mae'r polisi'n un gweithdrefnol ac ni ellir ei asesu. Mae asesiadau llawn o'r Safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn Atodiad 6 i'r AAG. | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mathau penodol o gynigion defnydd tir | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi LU01: Datblygu Tai ar Safleoedd sydd heb eu Dyrannu | - | 0 | 0 | - | - | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Polisi LU02: Gofynion ynghylch yr holl ddatblygiadau preswyl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | ++ | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU03: Tai Fforddiadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | 0 | + | 0 | + | + | + |
| Polisi LU04: Diwallu Amrediad o Anghenion Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU05: Cyflenwi datblygiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU06: Dwysedd Tai | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU07: Is-rannu Anheddau sy'n Bodoli | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Amcan Cynaliadwyedd (Cryno) / Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau | 1a. Lleihau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid yn yr hinsawdd | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Ansawdd a maint pridd | 2b. Ansawdd Aer | 2c. Ansawdd a maint dŵr | 3a. Adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith | 4a. Bioamrywiaeth | 5a. Tirwedd a threftadaeth | 6a. Hunaniaeth ddiwylliannol | 6b. Cymunedau bywiog | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a hamdden | 9. Sylfaen addysg a sgiliau | 10. Dyfodol cynaliadwy | 11a. Moddau teithio cynaliadwy | 11b. Gwasanaethau hygyrch | 12. Economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi LU08: Amnewid Anheddau sy'n Bodoli | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU09: Adnewyddu Anheddau Blaenorol/a Adawyd | ? | ? | 0 | + | ? | ? | 0 | + | ? | ? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 |
| Polisi LU10: Carafanau Preswyl Dros Dro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU11: Cynigion cyflogaeth ar safleoedd sydd wedi eu dyrannu: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU12: Cynigion cyflogaeth ar safleoedd sydd heb eu dyrannu | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | + | + | + | + | ++ |
| Polisi LU13: Newid Defnydd mewn cysylltiad â thir neu adeiladau Cyflogaeth presennol | ? | ? | ? | ? | ? | ? | + | 0 | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? |
| Polisi LU14: Safleoedd Llety Ymwelwyr ledled y Sir: Carafanau Teithiol a Sefydlog, Lleiniau pebyll, Cabanau Gwyliau. | + | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | + | + | 0 | ++ | 0 | 0 | ? | ? | + |
| Polisi LU15: Ledled y Sir: Adleoli Carafanau a Chabanau Gwyliau | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU16: Llety Ymwelwyr – Mathau o Lety sydd heb eu cynnwys ym Mholisi LU14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU17: Cyfleusterau/Atyniadau i Ymwelwyr | ? | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | ++ | ? | 0 | ? | 0 | + |
| Polisi LU18: Cynigion manwerthu ledled y Sir | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Polisi LU19: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethu Trefol | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Polisi LU20: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethu Gwledig | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Polisi LU21: Newid defnydd o ddefnydd manwerthu | ? | ? | ? | ? | ? | ? | + | 0 | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? |
| Polisi LU22: Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Hamdden ac Adloniant | + | 0 | 0 | 0 | + | ? | 0 | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + |
| Polisi LU23: Mannau Agored sy'n Bodoli | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | + | + | + | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | ++ | ++ | 0 | 0 | + | + | 0 |
| Polisi LU25: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy | ++ | 0 | 0 | ? | + | ? | + | + | ? | ? | ? | ? | 0 | ? | ? | 0 | 0 | 0 | ? |
| Polisi LU26: Ffermydd gwynt bach a chanolig eu maint | ? | 0 | ? | ? | 0 | ? | 0 | + | ? | + | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU27: Cyflenwad cynaliadwy o adnoddau mwynol | + | 0 | 0 | - | - | ? | ++ | 0 | ? | ? | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | 0 | + |

| Amcan Cynaliadwyedd (Cryno) / Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau | 1a. Lleihau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid yn yr hinsawdd | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Ansawdd a maint pridd | 2b. Ansawdd Aer | 2c. Ansawdd a maint dŵr | 3a. Adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith | 4a. Bioamrywiaeth | 5a. Tirwedd a threftadaeth | 6a. Hunaniaeth ddiwylliannol | 6b. Cymunedau bywiog | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a hamdden | 9. Sylfaen addysg a sgiliau | 10. Dyfodol cynaliadwy | 11a. Moddau teithio cynaliadwy | 11b. Gwasanaethau hygyrch | 12. Economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi LU28 Meini prawf a gymhwysir at gynigion mwynau | - | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU29: Datblygu o fewn clustogfeydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU30: Diogelu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU31: Cyfleusterau adennill adnoddau a rheoli gwastraff | + | 0 | 0 | ? | ? | ? | ++ | + | ? | ? | 0 | 0 | - | 0 | ? | 0 | + | + | + |
| Polisi LU32: Datblygu a'r hierarchaeth gwastraff | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | ? | 0 | + | + | + |
| **Polisïau rheoli datblygu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi DM01: Datblygu Cynaliadwy o ran Cyflymder, Maint a Dyluniad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM02: Datganiadau ac Asesiadau Cymunedol ac Iaith Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM03: Teithio Cynaliadwy | + | 0 | 0 | - | + | ? | + | + | ? | ? | + | + | + | + | ? | 0 | ++ | ++ | + |
| Polisi DM04: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel ystyriaeth berthnasol | + | 0 | 0 | - | + | 0 | 0 | + | ? | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | ++ | + | + |
| Polisi DM5: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | 0 |
| Polisi DM06: Dylunio o Ansawdd Uchel a Chreu Lleoedd | 0 | ++ | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi DM07: Ardaloedd Cadwraeth | Mae'r polisi'n un gweithdrefnol ac ni ellir ei asesu. | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Lleoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | + | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM09: Dylunio a Symud | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 |
| Polisi DM10: Dylunio a Thirweddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM11: Dylunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd | 0 | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi DM12: Seilwaith cyfleustodau | + | + | + | - | 0 | + | 0 | ++ | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy | + | + | ++ | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol | + | + | + | + | + | + | ++ | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi DM16: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM17: Tirwedd Gyffredinol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | ++ | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi DM18: Ardaloedd Tirwedd Arbennig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | ++ | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |

| Amcan Cynaliadwyedd (Cryno) / Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau | 1a. Lleihau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid yn yr hinsawdd | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Ansawdd a maint pridd | 2b. Ansawdd Aer | 2c. Ansawdd a maint dŵr | 3a. Adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith | 4a. Bioamrywiaeth | 5a. Tirwedd a threftadaeth | 6a. Hunaniaeth ddiwylliannol | 6b. Cymunedau bywiog | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a hamdden | 9. Sylfaen addysg a sgiliau | 10. Dyfodol cynaliadwy | 11a. Moddau teithio cynaliadwy | 11b. Gwasanaethau hygyrch | 12. Economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi DM19: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi DM20: Gwarchod Coed, Perthi a Choetiroedd | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM21: Effaith Datblygu Ffermydd Gwynt ar Dirweddau o fewn Ardal Chwilio Strategol D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol. | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? |
| Polisi DM23: Rheoli'r Arfordir | 0 | + | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |

8.7 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i effeithiau cronnol yr holl bolisïau yn y CDLl ar bob un o'r Amcanion Cynaliadwyedd fel rhan o'r asesiad. Mae crynodeb o'r canlyniadau i'r ystyriaeth hon yn Nhabl 4 ac mae ymdriniaeth drwyadl hefyd yn Adran 6 o'r AAG terfynol (2013).

**Tabl 4. Crynodeb o effeithiau cronnol y Polisïau Adneuo**

| Rhif yr Amcan | Amcan Cynaliadwyedd | Asesiad o Arwyddocâd |
|---|---|---|
| 1a | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygu sy'n bodoli a datblygu newydd. | + |
| 1b | Sicrhau bod mesurau digonol ar waith i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. | ++ |
| 1c | Lleihau'r perygl o lifogydd | + |
| 2a | Lleihau halogi a diogelu ansawdd a maint pridd. | - |
| 2b | Cynnal a gwella ansawdd aer ledled Ceredigion. | 0 |
| 2c | Lleihau effeithiau anffafriol defnyddio tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. | 0 |
| 3a | Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy. | + |
| 3b | Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. | ++ |
| 4a | Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth. | ? |
| 5a | Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd Ceredigion, ei hamgylchedd hanesyddol, ei hamrywiaeth, a'i nodweddion unigryw lleol, a'i threftadaeth hanesyddol a diwylliannol. | ? |

| | | |
|---|---|---|
| 6a | Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol neilltuol a sicrhau bod anghenion oherwydd y newid mewn demograffeg wedi'u hadlewyrchu. | ++ |
| 6b | Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynus | ++ |
| 7a | Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | + |
| 8a | Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar o fewn Ceredigion | ++ |
| 9 | Creu mwy o gyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. | 0 |
| 10 | Gwarchod cymunedau drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | ? |
| 11a | Lleihau'r angen am deithio/trafnidiaeth a hyrwyddo moddau trafnidiaeth cynaliadwy | + |
| 11b | Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er mwyn yr economi. | + |
| 12 | Hybu economi fywiog ac amrywiol. | + |

8.8 Er y byddai'r Amcanion, y Polisïau a'r Safleoedd sydd wedi'u Dyrannu yn y CDLl mewn cysylltiad â thai a thwf economaidd a darparu seilwaith yn gallu achosi rhai effeithiau anffafriol gyda'i gilydd ar Amcanion amgylcheddol yr AG/AAS, o ystyried lefel y twf sydd wedi'i ragfynegi ac effeithiau lliniarol canllawiau cenedlaethol a'r Polisïau eraill yn y CDLl, mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn fach ac, mewn llawer o achosion, gellid sicrhau effeithiau cadarnhaol. Yr amcan wrth ddosbarthu twf a dewis safleoedd i'w dyrannu yw sicrhau nad yw twf ond yn debygol o gael ei gyfyngu i raddau arwyddocaol gan Amcanion a Pholisïau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn yr ardaloedd hynny sydd â'r gwerth amgylcheddol mwyaf. Felly, mae unrhyw effeithiau cronnol negyddol ar nodau economaidd-gymdeithasol y Sir yn debygol o fod yn fach hefyd. Mae crynodeb o'r asesiad yn Nhabl 5.

**Tabl 5 Crynodeb o Asesiad yr AG/AAS o Bolisïau'r CDLl**

| Asesiad o Arwyddocâd | Cyfrif | Cyfran |
|---|---|---|
| ++ | 41 | 4% |
| + | 345 | 30% |
| ? | 126 | 11% |
| 0 | 622 | 54% |
| - | 25 | 2% |
| -- | 0 | 0% |
| CYFANSWM | 1159 | 100% |

*Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n dod i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.
**Sylwer: mae Polisïau S08 a DM07 yn rhai gweithdrefnol ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

# 9. Asesu'r Safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLl

9.1 Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o'r broses ar gyfer gwerthuso safleoedd datblygu posibl, a elwir yn Safleoedd Posibl, wrth ystyried y posibilrwydd o'u dyrannu yn y CDLl (gweler Atodiad 5 i'r AAG terfynol, 2013). Ystyriwyd tua 1600 o Safleoedd Posibl a ddyrannwyd 86 ohonynt yn y CDLl.

9.2 Aseswyd yr 86 o safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLl Adneuo o ran eu heffeithiau tebygol ar yr Amcanion Cynaliadwyedd. Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl o nodweddion pob un o'r safleoedd sydd wedi eu dyrannu wedi cyfrannu hefyd at asesiad cyffredinol o Bolisïau Adneuo'r CDLl mewn cysylltiad â phob un o'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae crynodeb o'r asesiad o'r safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn Nhabl 7.3 yn yr AAG Terfynol (2013). Mae'r matricsau arfarnu llawn, sy'n cynnwys manylion am y rhagfynegiadau o effeithiau'r Safleoedd sydd wedi eu dyrannu, yn Atodiad 6 i'r AAG Terfynol (2013).

9.3 Yn gyffredinol, cafwyd bod yr effeithiau a ragwelir o ganlyniad i weithredu ar sail y safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLl yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Rhagfynegwyd rhai effeithiau anffafriol, a'r rhain yn gysylltiedig gan mwyaf â'r effeithiau ar yr Amcanion Cynaliadwyedd amgylcheddol. Y casgliad a gafwyd hefyd mewn nifer mawr o'r asesiadau oedd na fydd unrhyw effeithiau safle-benodol. Y rheswm am hyn yw, er y gallai datblygu gael effaith ar yr Amcan, na fyddai dewis un safle yn hytrach nag un arall mewn anheddiad penodol yn cael effaith o'r fath. Er enghraifft, byddai datblygu tai newydd mewn anheddiad yn gallu rhoi pwysau ar y seilwaith presennol (e.e. trin dŵr gwastraff), ond nid yw union leoliad y tai yn effeithio ar y mater hwn ym mhob achos.

9.4 Mae crynodeb yn y tabl canlynol (Tabl 9) o effeithiau dichonol y safleoedd posibl a nodwyd yn asesiad yr AG/AAS. Mae'r tabl yn dangos bod y rhan fwyaf o'r asesiadau un ai'n gadarnhaol neu'n niwtral (tua 66%) o ran eu heffeithiau ar Amcanion yr AG/AAS.

9.5 Gan fod Polisïau'r CDLl yn pennu'r math o ddatblygu sy'n briodol ar y safleoedd ac yn cyfrannu i raddau arwyddocaol felly at y mesurau lliniaru a bennwyd wrth eu hasesu, ceir crynodeb mwy cynhwysfawr, sydd hefyd yn trafod materion sy'n ymwneud ag effeithiau cronnol, cyfunol a synergaidd, yn Adran 7 o'r AAG Terfynol (2013). Mae manylion llawn y camau lliniaru a awgrymir ochr yn ochr â'r asesiadau yn Atodiad 6.

**Tabl 9. Crynodeb o Asesiad yr AG/AAS o'r 86 o Safleoedd sydd wedi eu dyrannu**

| Asesiad o Arwyddocâd | Cyfrif | Cyfran |
|---|---|---|
| ++ | 16 | 1% |
| + | 506 | 31% |
| ? | 45 | 3% |
| 0 | 562 | 34% |
| - | 479 | 29% |
| -- | 26 | 2% |
| TOTAL | 1634 | 100% |

* Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n dod i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

## 10. Lliniaru

10.1 Mae amryw o effeithiau ar gynaliadwyedd wedi'u rhagfynegi yn y CDLl, a thrwy asesu'r polisïau dangoswyd y gallai rhai ohonynt arwain at effeithiau negyddol bach, yn bennaf oherwydd effaith datblygu ar yr amgylchedd. Mae mesurau lliniaru'n cwmpasu dulliau sydd â'r amcan o atal, lleihau neu wneud iawn am effeithiau anffafriol ar gynaliadwyedd sydd wedi'u nodi. Mae hefyd yn bwysig ceisio cael mesurau sydd â'r amcan o hybu effeithiau cadarnhaol. Yn ystod yr asesiad, pennwyd mesurau lliniaru ar gyfer pob Polisi a Safle a ddyrannwyd y rhagfynegwyd effaith negyddol o ganlyniad iddo ar un o Amcanion yr AG/AAS. Mae llawer o'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn y polisïau eu hunain. Mae mwy o fanylion yn Atodiadau 4 a 6 i'r AAG Terfynol (2013).

## 11. Monitro Effeithiau'r Cynllun

11.1 Un o ofynion proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a Chyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw y bydd yr effeithiau arwyddocaol ar gynaliadwyedd o weithredu'r CDLl yn cael eu monitro.

11.2 Bydd gwaith montro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn digwydd ochr yn ochr â monitro'r CDLl a bydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion yw monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Cynllun Datblygu Lleol a chyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

11.3 Mae'r fframwaith monitor ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn weiliedig ar yr Amcanion Cynaliadwyedd y mae'r CDLl wedi cael ei asesu yn eu herbyn. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor Sir i ddeall i ba raddau y mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Gwelir y fframwaith monitro yn Nhabl 10.1 ac Atodiad 1 yr AAG terfynol

## 12. Mabwysiadu'r Cynllun

12.1 Fel rhan o Ddatganiad Mabwysiadu'r CDLl (2013) cyhoeddir Datganiad AAS ochr yn ochr â'r CDLl a fabwysiadir. Pwrpas y Datganiad hwn yw disgrifio: sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio â'r cynllun; sut mae Adroddiadau'r AG wedi'u hystyried; sut mae barnau a fynegwyd mewn cysylltiad â'r ymgyngoriadau ar y cynllun ac Adroddiad yr AG wedi'u hystyried; y rhesymau dros ddewis y cynllun a fabwysiadwyd, o'i ystyried ochr yn ochr â dewisiadau rhesymol eraill a drafodwyd; a'r mesurau a gymerir i fonitro'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol a geir o ganlyniad i weithredu'r CDLl.